# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 17 Hydref 2012** |
| Amser: | **09:15 - 12:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Gwyn Jones, Cyngor Sir Ceredigion**<br>**Mark Owen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br>**Yr Athro Hywel Thomas, Dirprwy Is-ganghellor, Ymgysylltu a Rhyngwladol, Prifysgol Caerdydd**<br>**Dr Sue Hybart, Prifysgol Caerdydd**<br>**Hugh Jones, Prifysgol Caerdydd**<br>**John Graystone, Prif Weithredwr, ColegauCymru**<br>**David Jones, WJEC** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 - Tystiolaeth gan lywodraeth leol

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Gwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Sir Ceredigion, a Mark Owen, Pennaeth Cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i'r cyfarfod.

2.2 Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd y tystion i ddarparu:

- Nodyn am ba gyfran o gyllideb gofal cymdeithasol eu hawdurdod sy'n cael ei gwario ar ffioedd gofal cartref.

## 3. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 - Tystiolaeth gan sefydliadau addysg

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Hywel Thomas, Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol ac Ymgysylltu), Prifysgol Caerdydd; Dr Sue Hybart, Cyfarwyddwr Cynllunio, Prifysgol Caerdydd; Hugh Jones, Prif Swyddog Gweithredu, Prifysgol Caerdydd; David Jones, Prifathro, Coleg Glannau Dyfrdwy; a John Graystone, Prif Weithredwr, Colegau Cymru.

3.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

Camau i'w cymryd:

Cytunodd Prifysgol Caerdydd i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Gwybodaeth bellach am y buddion economaidd ehangach sy'n deillio o gael myfyrwyr tramor ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Gwybodaeth bellach am yr effaith y mae cwtogi cymorth ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr yn Lloegr wedi'i chael ar rifau cofrestru mewn awdurdodau addysg uwch yng Nghymru.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 6.

## 6. Ystyried y dystiolaeth ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014.